



GYLCHLYTHYR CEFNOGI POBL CWM TAF

NEWS

HELO A CHROESO I RIFYN GWANWYN 2016 O GYLCHLYTHYR CEFNOGI POBL CWM TAF

Os hoffech gyfrannu at y rhifyn nesaf, cysylltwch â Sue Preece, Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol ar 01685 726230 neu e-bostiwrch Susan.Preece2@merth



Gwanwyn 2016 • Rhif 19

Cynnwys

- Tudalen 1: Newyddion Diweddaraf RCC Cwm Taf
- Tudalen 3: Cynllunio a Datblygu
- Tudalene 6: Fforwm Darparwr Rhanbarthol Cwm Taf
- Tudalen 7: Astudiaethau Achos Cefnogi Pobl
- Tudalen 9: Newyddion a Digwyddiadau Darparwyr Cymorth
- Tudalen 14: Newyddion Pwysig Arall
- Tudalen 17: Manylion Cyswllt

PWYLLGOR RHANBARTHOL CYDWEITHREDOL CWM TAF (RCC)

NEWYDDION DIWEDDARAF

Cynrychiolwyr cadeirydd a dirprwy Landlord newydd ar gyfer yr RCC - Croeso Mawr i chi'ch dau!! Cwrdd â Chadeirydd newydd yr RCC!

Mae Cadeirydd newydd wedi ei hethol ar gyfer RCC Cwm Taf yn dilyn y newyddion fod y cadeirydd presennol Keiron Montague yn gadael ei swydd. Bydd y Cynghorydd Linda Mathews, yr Aelod Cabinet gyda phortffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd rôl y cadeirydd o Mai 2016.

Ganed y Cynghorydd Linda Matthews ym Mhenrhwiwer yn y Rhondda ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Fabanod ac Ysgol Gynradd Williamstown ac Ysgol Ramadeg Tonyrefail. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio yn Labordy Patholeg Ysbyty Dwyrain Morgannwg i ddechrau, yna yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg cyn ymddeol yn gynnar ychydig flynyddoedd yn ôl. Symudodd i Ferthyr Tudful pan briododd yn 1975 ac mae wedi byw yn Ward y Dref ers hynny.

Etholwyd Linda fel cynghorydd Llafur dros Ward y Dref yn 1983 ac roedd yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd nifer o weithiau cyn dod yn Ddirprwy Arweinydd yn 1991. Roedd yn Faer yn 1993/94.

Collodd Linda ei sedd ym 1999 ac felly canolbwyntiodd ar wella ei gyrfa drwy ennill cymwysterau ar ffurf MSc a PhD.

Bu Linda'n llwyddiannus fel Ymgeisydd y Blaid Lafur yn Ward y Dref yn 2012. Ar ôl treulio 2 flynedd fel aelod o bwyllgorau craffu, cafodd swydd cabinet yn 2014 gyda chyfrifoldeb i yrru'r Rhaglen Newid Trawsfurfiol er mwyn cwrdd â thargedau ariannol a orfodwyd gan y toriadau yng nghyllideb y Llywodraeth.

Ym Mai 2015 cymerodd Linda swydd fel aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys cyfrifoldeb am Oedolion a Gwasanaethau Plant. Mae hi bellach yn goruchwylio gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ac yn eistedd ar nifer o fyrddau cydweithredol.

Mae lleihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiogel yn flaenoriaeth.

Mae Linda yn briod â Jeff ac mae ganddynt 2 o blant, Siân (sydd wedi dilyn ôl traed ei mam a chafodd ei ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn isetholiad Mai 2015) a Paul sydd yn y Llynges Frenhinol Mae gan Linda a Jeff 4 o wyrion.

Shelter Debt Advice Service
Cymru 02920 556120

Got Clutter?... Get

freecycle.org



gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Merthyr Tudful.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi ethol cynrychiolydd Dirprwy Berchennog newydd:

Dewch i gwrdd â'r Dirprwy Landlord Newydd

Cefais fy mhenodi'n ddiweddar fel Dirprwy gynrychiolydd Rhanbarthol Pwyllgor Cydweithredol (RCC) ar gyfer ardal Cwm Taf ac rwy'n awyddus iawn i ddatblygu partneriaethau a chynrychioli barn a buddiannau landlordiaid a darparwyr cymorth. Rwy'n gweithio fel Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymorth yng Nghartrefi Cymoedd Merthyr ar hyn o bryd, yn rheoli chwe chynllun tai gwarchod, unedau llety dros dro a gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen. Mae gen i lawer iawn o brofiad tai, yn amrywio o swyddogaethau gweithredol rheng flaen i reoli strategol o rai o adrannau'r gwasanaeth tai. Rwyf wedi gweithio yn y maes tai ers dros bymtheg mlynedd ac wedi datblygu gwybodaeth drylwyr o'r sector yn ystod yr amser hwn. Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi cwblhau BSc mewn Polisi ac Arfer Tai ac rwyf yn ymroddedig i ddatblygu a hyfforddi parhaus. Felly rwyf yn teimlo gyda fy ngwybodaeth a mhrofiad gweithio ym maes tai a chymorth y gallaf gyfrannu'n effeithiol at lunio dyfodol y rhaglen cefnogi pobl.



Julie McCarthy
Dirprwy Gynrychiolydd Landlordiaid

Grŵp
Cartrefi
Cymunedol
Cymru



Community
Housing
Cymru
Group

Hwyl fawr a Phob Lwc!

Bydd y dirprwy arweinydd Keiron Montague yn gadael ei swydd ym mis Mai

Mae'r Cynghorydd Keiron Montague, dirprwy arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, wedi cadarnhau y bydd yn gadael ei rôl ym mis Mai ac na fydd yn ceisio cael ei ail-ethol fel Cynghorydd yn 2017.

Gwnaeth y Cynghorydd Keiron Montague - yr aelod cabinet sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi, ymgysylltu a thai sydd ar hyn o bryd yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol Cydweithredol Cwm Taf, y cyhoeddiad yn dilyn ei benodiad fel rheolwr datblygu cymunedol gyda Chymdeithas Tai Cynon Taf.


Dywedodd y Cynghorydd Montague, ac etholwyr ym Maerdy yn ystod 2012; "Rwyf wedi penderfynu peidio â cheisio cael fy ail-ethol i'r Cyngor yn 2017."

'Cyfle am swydd hynod gyffrous'

"O ganlyniad, byddaf yn gadael fy rôl fel dirprwy arweinydd y cyngor ym mis Mai i ganiatáu i gydweithiwr sy'n bwriadu sefyll yn yr etholiadau i ymgymryd â'r swydd, ac yn cefnogi'r cyngor yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau llywodraeth leol.

"Yn ddiweddar rwyf wedi derbyn cynnig am swydd hynod gyffrous yn ôl yn y sector tai, ac fel y gwyr llawer ohonoch, dyna lle mae fy nghefnidir proffesiynol."

Hoffai RCC Cwm Taf ddiolch i Kieron am ei ymrwymiad a'i gefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf fel cadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf a hoffem ddymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.



CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cynllun Comisiynu Rhanbarthol Cwm Taf (RCP)

Mae'r Pedwerydd RCP 2016-2019 wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â RCC Cwm Taf, yr Awdurdod Lleol, Iechyd, Gwasanaeth Prawf Cymru, Iechyd y Cyhoedd Cymru a Swyddogion Cefnogi Pobl. Cafodd yr RCP ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2016, ynghyd â'r Cynllun Gwariant Rhanbarthol ar gyfer 2016/2017.

Blaenoriaethau RCP:

- Ffurio perthynas waith agosach gyda'r rhaglenni Mynd i'r Afael â Thlodi a monitro gweithrediad y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Lles i nodi ffyrdd o symleiddio gwasanaethau a gweithio ar y cyd posibl.
- Archwilio opsiynau ynghylch y fframwaith canlyniadau a rennir a sut mae cefnogi pobl yn ffitio mewn i hyn.
- Gweithredu'r gyfrifiannell cost ar draws y rhanbarth.
- Datblygu cynllun strategol ar gyfer canfod arbedion ar gyfer unrhyw doriadau cyllideb yn y dyfodol.
- Ystyried opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl yn rhanbarthol.
- Gwella monitro canlyniadau ar draws y rhanbarth i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu dangos tystiolaeth o ansawdd gwasanaethau yn effeithiol a'r effaith mae'n gwasanaethau yn ei gael ar ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Archwilio opsiynau o ran rhanbartholi y timau Cefnogi Pobl.

Os ydych angen copi o'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol cysylltwch â Sue Preece, Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol.

Gwneud Cysylltiadau â'r Rhaglenni Mynd i'r Afael â Thlodi

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd cysylltu gwasanaethau Cefnogi Pobl gyda Rhaglenni Mynd i'r Afael â Thlodi ehangach. Mae Cefnogi Pobl yn rhan allweddol o'r agenda mynd i'r afael â thlodi ac mae RCC Cwm Taf wedi ymestyn ei aelodaeth i gynnwys mynd i'r afael â thlodi ar gyfer pob awdurdod lleol.

Dyddiadau Cyfarfodydd a Dyddiau Cynllunio sydd i ddod ar gyfer 2016

9 Mai 2016

16 Awst 2016


18 Hydref 2016

15 Tachwedd 2016

Data Mapio Anghenion Cwm Taf

Mae data Anghenion Arweiniol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi gan y timau cefnogi pobl dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chyflwyno i'r RCC a bydd yn llywio blaenoriaethau comisiynu lleol a rhanbarthol.

Mae'r siart isod yn dangos y newid yn y galw mewn gwasanaethau rhwng casglu data 2 flynedd:



Yn ystod 2014/15 derbyniodd y timau Cefnogi Pobl 1442 o atgyfeiriadau, 681 ar gyfer merched a 761 i ddynion drwy'r system gyfeirio ganolog.

- Mae gostyngiad sylweddol yn 2 gr ŵ p o gleientiaid ar draws y rhanbarth i gynnwys; Anableddau Dysgu a Phobl H^ yn. Roedd yna hefyd ostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau ar gyfer Iechyd Meddwl a Cham-drin Domestig ar draws y rhanbarth, fodd bynnag, rhain yw'r niferoedd uchaf sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer gwasanaethau cefnogi pobl.
- Hefyd, roedd yna ostyngiad bychan gyda 3 gr ŵ p cleientiaid gan gynnwys, Camddefnyddio alcohol a Theuluoedd un rhiant. Gwelwyd ychydig o ostyngiad hefyd o ran grwpiau digartrefedd ond mae hyn yn dal i fod yn un o'r niferoedd uchaf a gyflwynir ar gyfer gwasanaethau cefnogi pobl.
- Mae gweddill y grwpiau cleientiaid wedi gweld cynnydd ar draws y rhanbarth.


Ymgynghoriad Defnyddwyr Gwasanaeth RCC Cwm Taf

Comisiynodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf i ddarganfod beth sydd wir yn bwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn gwasanaethau cefnogi pobl. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori mawr i fwydo mewnbyn defnyddwyr gwasanaeth i mewn i'r dangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau tai a gefnogir mewn comisiynu yn y dyfodol. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddefnyddwyr gwasanaethau eu hunain lunio gwasanaethau'r dyfodol yn strategol.

Mae darparwyr cynhorthwy eisoes yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn dda, felly rydym yn awyddus i fanteisio ar hynny, i ymgynghori â phobl mor eang â phosibl. Cyflawnwyd hyn a bu i ni oruchwylio ymarfer ymgynghori helaeth. Cymerodd tua 400 o ddefnyddwyr y gwasanaethau cefnogi pobl ran, o 53 o wasanaethau gwahanol ac 18 o ddarparwyd gwasanaeth ar draws Cwm Taf.

Hoffai'r RCC ddiolch i'r darparwyr gwasanaeth a oedd yn gysylltiedig ac yn enwedig ymestyn eu diolch i'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain gyda'r ymgynghoriad llwyddiannus hwn.

Fel RCC rhagwelwn y bydd mwy o rôl yn cael ei chwarae gan ein Grŵp Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth a fydd yn hanfodol i sicrhau fod barn a phrofiadau'r unigolion hynny sydd wedi defnyddio ein gwasanaethau wrth galon y penderfyniadau a wnawn.



FFORWM DARPARWYR RHANBARTHOL CWM TAF

Mae gan Gwm Taf fforwm Darparwyr Rhanbarthol sefydledig sy'n cael ei hwyluso gan Gymorth Cymru. Mae cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal ac mae hyn yn gyfle i chi gael dweud eich dweud fel darparwr gwasanaeth! Noder nad oes rhaid i chi fod yn aelod Cymorth i fynychu'r cyfarfodydd hyn.

Mae Cymorth Cymru hefyd yn chwilio am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd ar gyfer fforwm Darparwyr Rhanbarthol Cwm Taf.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Chymorth Cymru yn uniongyrchol.

Diolch yn FAWR i Ben Griffiths & Hazel Yates sydd wedi bod yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd am y 12 mis diwethaf!

Os ydych angen rhagor o wybodaeth am ddod yn aelod o Gymorth Cymru, cysylltwch â:
Oliver Townsend ar 02920 553687 neu olivertownsend@cymorthcymru.org.uk



cymorth
cymru

connect • strengthen • influence

Codi'r Darnau...



A dyna'n union beth mae'r preswlydd lleol enwog Nicky Owen Davies yn ei wneud y dyddiau hyn - yn llythrennol ac yn drosiadol - diolch i'r gefnogaeth barhaus mae wedi'i dderbyn gan Swyddog Cymorth Symudol Cartrefi Cymoedd Merthyr Darren Davies.

Cafodd Nicky ei ryddhau o'r carchar ym mis Ionawr 2015 a symud i mewn i Garth Villas - yr hostel digartref ym Mhont Morlais a redir gan Adref. Fel pob preswlywr sy'n symud i lety hostel, gosodwyd nifer o nodau i Nicky, a bu'n cadw'n ddiwyd at y rhain yn ystod cwrs ei breswyliaid. Oherwydd ei ymddygiad canmoladwy ac ymgysylltu cadarnhaol bu iddo gael ei ymestyn o dri mis i bump, ond gan mai dim ond mesur tymor byr oedd hwn, ar ddiwedd y cyfnod o bump mis cafodd ei gyfeirio at gynllun tai dros dro Cartrefi Cymoedd Merthyr a oedd yn gallu darparu cymorth symudol.

Afraid dweud ei fod yn bryderus iawn, gan nad oedd yn teimlo'n barod am fwy o gynnwrf ac yn sicr nid oedd yn teimlo fel pe gallai fynd ati ar ei ben ei hun eto. Roedd yn cymryd camau mawr o ran cael ei fywyd yn ôl ar y trywydd iawn ar ôl arwyddo cytundeb gwirfoddol gyda'r gwasanaeth prawf yn ddiweddar (newidiodd amodau ei drwydded). Roedd hefyd wedi gwirfoddoli i gael profi cyffuriau bob pythefnos ac wedi cofrestru ar gymhwyster tenantiaeth a chyflogadwyedd OCN, sydd wedi ei ddatblygu gan Gartrefi Cymoedd Merthyr mewn partneriaeth â Adref a Chanolfan Dysgu'r Gymdogaeth.

Bu Nicky'n llwyddiannus yn cael mynediad at gynllun llety dros dro Cartrefi Cymoedd Merthyr a bu iddo setlo yn gyflym gyda darpariaeth cefnogaeth ddwys gan Darren. Bu i Nicky gael argraff fawr ar Darren, nid yn unig yn y ffordd yr oedd yn cynnal ei gartref, ond hefyd yr ymdrechion yr oedd yn ei fyddai wedi bod yn bosibl heb y cymorth a'r wneud i gael holl agweddau ei fywyd mewn trefn, ac felly, ychydig o gefnogaeth mae wedi ei gael. fisoedd yn ôl, cyfeiriodd Darren Nicky at gynllun gwirfoddol Cartrefi Cymoedd Merthyr. Mae bellach yn treulio ychydig o oriau bob wythnos yn gweithio gyda'r Tasglu Amgylcheddol ym Merthyr, ac yn gobeithio cynyddu ei oriau yn y misoedd nesaf.

Hwn yw'r cyfnod hiraf o amser mae Nicky wedi gwario tu allan i'r carchar - o 13 oed (yn dilyn marwolaeth ei rieni) mae wedi bod mewn ac allan o wahanol sefydliadau, ei gyhuddo o dros 120 o droseddau gyda 42 euogfarnau.

Mae Nicky'n cyfaddef y byddai'n cael ei ryddhau gyda'r bwriad uniongyrchol o aildroseddu - oherwydd yn y carchar ei fod yn sicr o gael to uwch ei ben a tri phryd y dydd. Yr angen sylfaenol am 'amgylchedd cartref' diogel oedd y prif factor a yrrodd e fi aildroseddu - felly roedd ymyrraeth Darren yn hanfodol ac yn amserol.

Cafodd Nicky blentyndod trawmatig - a thra mai ef fydd y cyntaf i ildio mai hwn oedd y rheswm iddo golli ei ffordd yn ifanc iawn - mae hefyd yn awyddus i nodi yn sicr nad yw hyn yn cyfiawnhau ei ymddygiad troseddol parhaus.

"Cymerodd y rhan orau o 17 mlynedd i mi sylweddoli o'r diwedd ei fod fyny i mi i gymryd cyfrifoldeb am fy ngweithredoedd fy hun ac i newid fy mywyd. Mae hyn yn bennaf diolch i gefnogaeth barhaus dwi wedi ei gael gan Darren a'r ffaith ei fod yn barod i roi'r cyfle cyntaf go iawn i mi. Nid wyf am adael fo na fy hun i lawr."

"Roedd yn barod i gymryd risg gyda mi a rhoddodd y cyfle hollbwysig i mi brofi fy hun. Rwyf wedi cael cefnogaeth o'r blaen ond mae cael lle fy hun wedi gwneud cymaint o wahaniaeth. Pan gefais fy rhyddhau y tro hwn gosodais dair gôl i fy hun - i sortio cartref allan i mi fy hun, i fod yn dad priodol ac i ddod o hyd i swydd. A dwi'n ar fy ffordd i gyflawni'r tri pheth. Fy mlaenoriaeth nesaf yw pasio fy mhrawf gyrru gan y bydd hyn yn fy rhoi mewn sefyllfa well i ddod o hyd i waith cyflogedig. Rwy'n gwybod na fydd hyn yn hawdd - fel cyn-droseddwr dwi'n ymladd brwydr anodd - ond rwy'n hyderus gyda'r gefnogaeth barhaus y byddaf yn cael swydd yn fuan."

Yn dad i 2 o blant bach, mae Nicky wedi gweithio'n galed iawn i adeiladu pontydd gyda'i gynbartner - mae gorchymyn atal yn ei erbyn wedi cael ei godi ac mae ganddo bellach fynediad heb oruchwyliaeth at ei blant. Mae'n cydnabod bod ei blant yn rym tu ôl i'w benderfyniad i newid ei fywyd am byth. Mae o eisiau bod yn esiampl gadarnhaol iddynt ac er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd i lawr yr un llwybr a wnaeth o.

Mae ei gariad yn disgwyl plentyn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ac mae Nicky yn benderfynol o ddarparu amgylchedd cartref sefydlog ar gyfer ei deulu. Ar hyn o bryd mae'n gwneud cais am dŷ dwy ystafell wely ac mae'n edrych ymlaen at y dyfodol - dyfodol mae'n wirioneddol yn credu na



Cefnogaeth Symudol Castle House



Fy enw i yw John a dechreuais dderbyn cymorth gan Liz fy ngweithiwr cymorth gan Gwalia yn ôl yn Hydref 2015.

Awgrymodd ffrind agos i mi y dylwn gyfeirio fy hun i gael cymorth drwy Gefnogi Pobl gan ei fod wedi cael llawer o help ac wedi llwyddo i newid ei fywyd.

Felly cefais y wybodaeth ar wefan y RCT, ei argraffu o, ei lenwi a'i anfon i ffrwrdd, heb wybod mewn gwirionedd beth i'w ddisgwyl.

Ar yr adeg roeddwn i'n rhannu tŷ gyda ffrind oedd yn symud allan i dŷ ei hun ac roeddwn mewn perygl o golli fy nghartref gan nad oedd yn meddwl y gallwn fforddio i aros yno. Roedd bywyd yn disgyn yn ddarnau yn araf bach. Rwyf yn yfwr trwm gyda pherthynas tywyll gydag alcohol. Pan fydd pethau'n mynd yn ddrwg i mi rwy'n yfed nes bod hyn i gyd yn diflannu. Yn anffodus, roedd hyn hefyd yn effeithio ar fy iechyd. Cefais ddiagnosis o gyflwr ar y galon ac roedd yr yfed yn ei wneud yn waeth. Roedd fy mhriodas drosodd; cefais fy neithrio oddi wrth fy merch.

Yna cysylltodd Liz a Sharon o Gwalia i alw i gwblhau asesiad. Roedd hon yn sgwrs gyfeillgar gartref lle roeddwn yn teimlo'n ddiogel i siarad. Yna dechreuais gael cymorth gyda Liz a ddoi allan i'm gweld yn wythnosol, ac yn araf dechreuom weithio drwy bethau gyda'n gilydd.

Fe wnes i gais am grant i helpu gyda'r diffyg budd-dal tai am 13 wythnos ac roeddwn yn llwyddiannus. Doeddwn i ddim yn gwybod unrhyw beth am hyn nes i mi ddechrau cael cefnogaeth.

Cysylltodd Liz â'm landlord, budd-dal tai a threth y Cyngor ac yn araf gallwn weld gwelliant o'r diwedd.

Mae gen' i denantiaeth sengl nawr, arian ychwanegol sy'n helpu gyda diffyg, rwy'n dechrau cwnsela cyn bo hir a hefyd yn rhoi sylw i fy mherthynas gydag alcohol ac nid wyf wedi cael diod am amser hir.

Mae bywyd yn edrych mor wahanol nawr o gymharu â chwe mis yn ôl pan oeddwn ar fin colli popeth ac ni allaf ddiolch i fy ngweithiwr cymorth, Gwalia a Chefnogi Pobl ddigon ar gyfer yr holl help a gefais. Mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i mi. Mae gen i dal rhai pethau i weithio arnynt ond nawr mae'r mynydd yn ymddangos yn llawer llai.

DARPARWR CYMORTH NEWYDDION a DIGWYDDIADAU

DATBLYGIAD CEFNOGI POBL NEWYDD YN AGOR!!



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREETADAETH GADARN | DYFODOL SICR



DECHRAU O'R NEWYDD

Adeiladwyd Martins Close yn y 1990au cynnar, ar safle hen orsaf heddlu, gan grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf. Yn wreiddiol roedd 18 o fflatiau ar rent. Fodd bynnag, oherwydd problemau nid yw'r fflatiau wedi cael eu defnyddio ers rhai blynyddoedd.

Mae ei leoliad wrth galon y gymuned yn golygu ei fod wedi cael ei nod fel addas ar gyfer prosiect newydd a bu i fywyd newydd ei chynllunio. Crëwyd partneriaeth rhwng Tîm Pobl CBSRhCT, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf a Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf i ailddatblygu'r adeilad i ddarparu Llety â Chymorth angenrheidiol i unigolion sy'n ddigartref ac angen datblygu sgiliau i allu rheoli eu cartref eu hunain o fewn y gymuned.

Penodwyd Gwalia ym mis Chwefror fel y darparwr cymorth i reoli'r prosiect; sydd bellach yn cynnwys 13 o fflatiau annibynnol. Bydd Gwalia yn darparu gwasanaeth cymorth cynhwysfawr i alluogi'r rhai hynny sy'n aros yn Martins Close at ddod yn aelodau annibynnol gweithgar yn economaidd yn y gymuned.

Bydd y prosiect yn cael ei staffio 24/7. Y cyfeusterau sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect yw ystafell weithgareddau, cyfeusterau i ddarparu hyfforddiant sgiliau byw'n annibynnol ac ystafell cynhwysiant digidol.

Er mwyn sicrhau bod y prosiect yn gweithio gyda'r gymuned, mae fforwm cymunedol wedi cael ei sefydlu, cafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal ar 10 Mawrth 2016.

Bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynllunio i sicrhau bod cyfathrebu cyson yn cael ei gynnal.

Am fwy o wybodaeth am Gwalia a Martins Close, cysylltwch â Dean Parfitt neu Julia Winter ar **01443 742220**

I gael mwy o wybodaeth am sut i gael eich cyfeirio neu i gael mynediad at Martins Close, cysylltwch â Thîm Cefnogi Pobl CBSRhCT **SupportingPeopleTeam@rctcbc.gov.uk** neu **01443 487979**.



Fframwaith Canlyniadau Cefnogi Pobl

Taenlenni Canlyniad Newydd – Ebrill 2016 - Ymlaen

Fel mae llawer ohonoch eisoes yn gwybod, mae Grŵp Data a Chanlyniadau Cefnogi Pobl wedi bod yn cynnal cynllun peilot ers mis Ebrill 2015 gyda 12 All ac amrywiaeth o ddarparwyr, i edrych ar statws digartrefedd defnyddwyr gwasanaeth y ddau wrth iddynt fynd i mewn i'r gwasanaeth ac ar ôl gadael. Yn dilyn casgliad canlyniadau ym mis Tachwedd 2015, rydym wedi cael y cyfle

i edrych ar y set gyntaf o ddata 'Statws Digartrefedd' a gasglwyd gan ddarparwyr treialu ac Awdurdodau Lleol. Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn werthfawr, ac o ganlyniad yr ydym yn cyflwyno'r daenlen allan ar gyfer y casgliad yn cychwyn mis Ebrill 2016.

[Os nad ydych wedi derbyn copi o'r daenlen newydd cysylltwch â'ch Tîm Cefnogi Pobl ar frys!](#)

Dyddiadau Cau Cyflwyno Canlyniad Cefnogi Pobl 2016-2017

Cyfnod	Dyddiadau	Dyddiad cau i gyflwyno i Awdurdod Lleol
2	Hydref 2015 – Mawrth 2016	Ebrill 2016 (dyddiad a osodwyd gan ALI)
1	Ebrill 2016 – Mehefin 2016 (Taenlen newydd)	Gorffennaf 2016 (dyddiad a osodwyd gan ALI)
2	Gorffennaf 2016 – Rhagfyr 2016 (Taenlen newydd)	Ionawr 2017 (dyddiad a osodwyd gan ALI)

Bydd hyn yn dod â ni yn unol â'r graddfeydd amser casglu data o Ionawr – Mehefin, Gorffennaf – Rhagfyr sydd nawr yn cael ei ddefnyddio ar draws rhaglenni eraill.

Tŷ Caersalem - Prosiect Gwalia



Fel rhan o Raglen Sgyrsiau Iach Gwalia mae'r grŵp coginio yma yn Nhŷ Caersalem yn dal i fynd yn gryf; bob nos Fercher mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn coginio pryd o fwyd blasus a maethlon gyda'i gilydd fel grŵp, gan roi iddynt nid yn unig pryd o fwyd iach, swmpus ond hefyd y sgiliau bywyd sydd eu hangen i fyw'n annibynnol.

Mae'r grŵp coginio yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn penderfynu ar y pryd i goginio, cyllidebu a siopa am y cynhwysion a dysgu sgiliau newydd yn y gegin i greu prydau iach wedi'u coginio yn ffres. Mae'r sgiliau coginio yn cael eu cyflwyno gan ein staff profiadol a medrus sy'n trosglwyddo eu sgiliau bywyd i ddefnyddwyr y gwasanaeth drwy ddysgu ymarferol a magu hyder i goginio pryd o fwyd eu hunain. Mae defnyddwyr gwasanaeth yna'n mwynhau ffrwyth eu llafur trwy gael y pryd bywyd gyda'i gilydd.

Mae'r grŵp eisoes wedi dysgu sut i goginio spaghetti bolognese, caserol selsig, cinio cyw iâr rost, lasagna, pastai cyw iâr a chennin, treiffi, pastai afal.

I fynd un cam ymhellach yn y coginio gallant dyfu eu cynhwysion eu hunain yn Gwalia – yn ddetholiad o ffrwythau a llysiau.



Hafod

Grŵp Crefft Gofal Hafod

Hyd yn hyn rydym wedi bod yn gwau a gwnïo "Twiddle muffs" ar gyfer cleifion sydd ag Alzheimers. Rydym wedi rhoi nifer o Twiddlemuffs i gartrefi gofal lleol lle meant wedi cael eu derbyn gyda diolch. Mae twiddlemuff yn gap llaw dwbl y trwch gyda mân betheuach ynghlwm tu mewn a'r tu allan. Mae wedi ei gynllunio i ddarparu gweithgaredd symbyliad ar gyfer dwylo aflonydd i gleifion sy'n dioddef o ddementia.

Mae ein 'hathrawes' gwau Suzanne Lewis (un o'n gweithwyr cefnogi) yn amyneddgar wedi dysgu'r dynion a'r menywod i wau a gwnïo a darparodd y gwlan a nodwyddau i bawb.

Mae'r grŵp crefftau wedi symud i lyfrgell Pontypridd ar fore dydd Iau gan ei fod yn fan cyfarfod mwy canolog ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Rydym wedi ymuno â grŵp crefft arall sydd hefyd yn cynnwys gwneud cardiau a chrosio.



Parti Nadolig Defnyddwyr Gwasanaeth Hafod

Cynhaliwyd parti Nadolig blynyddol Hafod ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth o bob rhan o Dde Cymru yn Neuadd Goffa y Barri ar 9 Rhagfyr 2015. Roedd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r holl brosiectau a gwasanaethau yn RhCT yn bresennol yn y parti ac rodden nhw'n cael eu cefnogi gan eu gweithwyr cymorth i wneud hynny.

Cyn y diwrnod cynhaliwyd cystadleueth rhwng y gwahanol feysydd cymorth yn Ne Cymru i ddylunio a gwneud addurniadau bwrdd i'r parti. Cymerodd staff a defnyddwyr gwasanaeth o'r holl ardaloedd ran a chynhyrchu rhai cynlluniau hynod o greadigol ar y diwrnod!

Mae'r parti'n gyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth gwrrd â phobl eraill i gael diwrnod o hwyl yn ystod cyfnod a all fod yn anodd i rai o'n defnyddwyr gwasanaeth. Cafwyd adloniant a chanu ar y cyd gan Gôr Hafod sef cantorion sy'n staff a defnyddwyr gwasanaeth o RCT, Pen y bont a Chaerdydd. Cafwyd disgo hefyd a oedd yn boblogaidd iawn, a gwelwyd y defnyddwyr gwasanaeth yn mwynhau codi i ddawnsio.

Darparwyd byffe hyfryd gyda phawb yn ei fwynhau'n fawr ynghyd â raffl ac anrheg Nadolig i bawb cyn ymadael. Cododd y raffl £138.15 ar y dydd a gafodd ei roi i'r Banc Bwyd.

Dyddiau Di-Electronig Hafod

Mae Hafod wedi bod yn cynnal "diwrnodau di-electronig" unwaith y mis am dros flwyddyn. Unwaith y mis mae'r holl staff yn neilltuo diwrnod o'r swyddfa ac i fwrdd oddi wrth eu cyfrifiaduron i dreulio gyda defnyddwyr gwasanaeth. Treulir y diwrnod yn gwneud gwaith gwirfoddol neu weithgareddau i leihau ynysu cymdeithasol a gwella ymgysylltu cymdeithasol ac iechyd a mynediad i'r gymuned. Mae gweithgareddau diweddar yn ogystal â'r grŵp crefft wedi cynnwys teithiau cerdded, ymweliad â marchnadoedd Nadolig Caerdydd, taith i Ynys y Barri a bowlïo. Roedd y bowlïo yn boblogaidd iawn gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd yn edrych i mewn i drefnu triapiau pellach yn y dyfodol agos.





Cynllun Byw yn Annibynnol Alltwn yn Aberdâr wedi ei drawsnewid i gwrdd â safonau

Mae Alltwn, cynllun byw'n annibynnol sy'n eiddo i ac a reolir gan Gymdeithas Tai Newydd, wedi cael ei thrawsnewid yn ystod y misoedd diwethaf i wneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

Cafodd R & M Williams a Brooking Decorators eu cyflogi gan Newydd i adnewyddu'r cynllun i gwrdd â safonau yn amlwg yn well RNIB. Cafodd yr holl feysydd mewnol eu haddurno i wneud nodweddion allweddol megis drysau, lloriau, rheiliau llaw, dodrefn a bleindiau newydd yn fwy gweladwy. Gosodwyd rheiliau llaw hefyd i gynorthwyo tenantiaeth sydd wedi colli'u golwg.

Dyweddodd Bob Humphreys, Rheolwr Gweithrediadau yn R & M Williams, "Doeddwn i erioed wedi sylweddoli'r gwahaniaeth gallai'r newidiadau hyn ei wneud i fywydau pobl. Mae wedi bod yn bleser gweithio ar brosiect sydd wedi cael effaith o'r fath; dylai mwy o gynlluniau fod yn gweithio tuag at gyflawni hyn."

Y tu allan mae'r llwybrau preswyl wedi cael eu lledu a'u marcio'n amlwg gyda rheiliau llaw wedi eu gosod. Mae'r ardal parcio hefyd wedi'i farcio'n glir ac meant wedi codi'r grisiau a chyrbau i gynorthwyo tenantiaid ac ymwelwyr i fynd o amgylch y cynllun.

Mae Ray Kemmery yn 88 ac mae wedi byw yn Alltwn ers iddi agor yn 1988. Pan symudodd Ray yno roedd yn ddyn heini ac iach a oedd yn mwynhau cadw'n heini yn y gampfa gartref a wnaed yn y cynllun ac yn mwynhau torheulo yn y gerddi o'i gwmpas. Wyth mlynedd yn ôl ymwelodd Ray â'r ysbty am archwiliad ar ei lygaid ac roedd wedi synnu pan ddywedwyd wrtho ei fod bron yn ddall.

Dyweddodd Ray, "gofynnodd y meddyg i mi sut es i i'r ysbty a dywedais wrtho fy mod wedi gyrru. Roedd yn sioc iddo fyd mod wedi llwyddo i gyrraedd yno, a dweud wrtha i na fyddwn i'n gyrru adref. Rwyf nawr wedi fy nghofrestru'n ddall ac wedi cael trafferth i fynd allan am yr wyth mlynedd diwethaf.

Mae Ray bron yn hollol gaeth i'r t^y ac eithrio ar gyfer dyddiau pan ei fod yn gallu mynd allan gyda'i deulu, sydd nid yn anffodus mor aml ag yr hoffai. Mae bellach yn hapus iawn gyda'r gwaith diweddar a gwblhawyd yn Alltwn. Dywedodd, "rwy'n gallu mynd allan o fy fflat bob dydd i gerdded o gwmpas yr adeilad. Mae meinciau brith o amgylch y llwybr fel y gallaf orffwys os bydd angen i mi a chymryd yr ardd brydferth nad wyf wedi gallu ei weld am amser hir. Dydw i ddim yn poeni am syrthio gan y gallaf weld y llwybr yn glir ac mae'n ehangach heb unrhyw rwystrau. Dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd i mi am amser hir."

Mae Ray wedi elwa mewn sawl ffordd gan y gwelliannau a wnaed yn Alltwn, "Rwy'n gallu cadw i fyny gyda'r newyddion am fod Hazel, Swyddog Byw'n Annibynnol Newydd, yn darparu cylchlythyr wedi ei chwyddo gydag ysgrifennu mawr i mi. Mae'r newidiadau sydd wedi digwydd mewn gwirionedd wedi gwneud gwanaiaeth mawr i mi ac rwy'n ddiolchgar iawn."

NEWYDDION PWYSIG ARALL A GWYBODAETH

Hwyl Fawr a Phob Lwc!

Mae Tîm Cefnogi Pobl Rhondda Cynon Taf yn drist o gyhoeddi bod ein cydweithiwr Lorraine Griffiths wedi symud ymlaen i borfeydd newydd. Ar ôl treulio 12 mlynedd yn Cefnogi Pobl, mae Lorraine bellach wedi dechrau her newydd drwy ddod yn Rheolwr Ardal ar gyfer Gofal a Chymorth Gwalia. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Lorraine am ei holl waith called dros y 12 mlynedd diwethaf. Mae ymroddiad, egni ac agwedd Lorraine wedi

Bodloni Anghenion Pobl ag Anableddau Dysgu ledled Merthyr Tudful

Fel rhan o'n gwaith i wella gwasanaethau'n barhaus bu i ni ddadgofrestru dau gartref grŵp preswyl anabledd i ddau sefydliad Llety a Gefnogir.

Roedd hyn yn golygu fod y bobl oedd yn byw yn y ddau gartref yn gallu mwynhau bywyd llawer mwy annibynnol lle gellir teilwra'r gofal a'r gefnogaeth i fodloni eu hanghenion yn hyblyg. Bydd y dull hwn yn gwella cyfleoedd i saith o breswylwyr sy'n byw yn y cynllun gan gynnwys llawer mwy o reolaeth dros eu gofal a'u cefnogaeth.

Mae hyn hefyd wedi arwain at fwy o ddarpariaeth llety a gefnogir ar gael yn y Fwrdeistref Sirol i'n preswylwyr agored i niwed gydag anableddau dysgu.

Daeth y cynllun ar-lein ym mis Ionawr 2016 ac mae'n gweithio'n dda tuag at fodloni anghenion tenantiaid, cynyddu eu cyfleoedd a gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.

Gellir cael mwy o wybodaeth ar y prosiect hwn drwy ffonio 01685 724636.



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Cynllun Comisiynu Lleol Merthyr Tudful

Eleni bydd Cynllun Comisiynu Lleol Merthyr Tudful (LCP) ar gael ar Hwb Ymgysylltu Cwm Taf ar gyfer ymgynghori. Mae'r LCP yn amlinellu'r data anghenion a chomisiynu, penderfyniadau dad-gomisiynu ac ail-drefnu ledled Merthyr Tudful.

Os hoffech ddweud eich dweud ar LCP Merthyr Tudful gallwch wneud hynny drwy fynd ar Hwb Ymgysylltu Cwm Taf. www.cwmtafhub.com

Gellir cael gwybodaeth bellach ar yr LCP drwy ffonio 01685 724636.

Mae gofal a chefnogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn newid

O fis Ebrill, byddwch yn cael mwy o ddweud yn eich gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn dod i rym ar Ebrill 6.

Dyma'r gyfraith newydd ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau yn cael eu cyflawni - bydd pobl yn cael mwy o ddweud yn yr ofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu derbyn.

Mae hefyd yn hyrwyddo amrywiaeth o help sydd ar gael yn y gymuned i leihau'r angen am gefnogaeth ffurfiol, wedi'i chynllunio.

- Bydd gwasanaethau ar gael i ddarparu'r gefnogaeth iawn ar yr amser iawn
- Bydd mwy o wybodaeth a chynghor ar gael
- Bydd asesu yn symlach ac yn fwy cymesur
- Bydd gan ofalwyr hawl cyfartal i gael eu hasesu am gefnogaeth
- Bydd pwerau cryfach i ddiogelu pobl rhag cam-drin ac esgeuluso

Beth sy'n digwydd nawr?

Os ydych chi'n derbyn gofal neu gefnogaeth, byddwch yn cymryd rhan yn y broses newydd yn ystod eich dyddiad adolygu nesaf.

Am ragor o wybodaeth ewch ar www.rctcbc.gov.uk neu www.merthyr.gov.uk neu www.gov.wales/careandsupport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Polisi Dyrannu Tai Merthyr Tudful

Rydym eisiau eich barn

Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystyried newid y ffordd rydyn ni'n dyrannu tai cymdeithasol ym Merthyr Tudful.

Mae angen diweddarau polisi dyrannu tai oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth ac i anghenion pobl ym Merthyr Tudful.

Dyma eich cyfle i ddweud eich dweud ar sut y bydd y cynllun Dewis Tai yn gweithredu yn y dyfodol.

Ni all y Cyngor ddyrannu tai cymdeithasol i bawb sydd eisiau un, gan fod y galw cyffredinol yn fwy na'r stoc tai sydd ar gael. Felly mae'n hanfodol bwysig fod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion lleol, er mwyn sicrhau fod anghenion y boblogaeth leol yn cael eu hystyried yn unrhyw benderfyniadau a wneir.

Bydd nifer ohonoch wedi defnyddio neu wedi clywed am y cynllun tai Tai Dewis. Mae'n gynllun rhentu yn seiliedig ar ddewis sy'n caniatáu i bobl ar y gofrestr dai wneud cais am eiddo yr hoffon nhw fyw ynddo, sydd yn eiddo i un o'r pedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) (hefyd adnabyddir Cymdeithasau Tai). Y rhain yw:

- Tai Cymoedd Merthyr (MVH)
- Cymdeithas Tai Merthyr Tudful (MTHA)
- Cymdeithas Tai Cymru a'r Gornllewin
- Cymdeithas Tai Hafod

Noder nad yw'r Cyngor yn berchen ar unrhyw dai cymdeithasol. Trosglwyddwyd y cwbl i Dai Cymoedd Merthyr yn 2009. Fodd bynnag mae'r Cyngor yn parhau i fod yn atebol am reoli mynediad at dai cymdeithasol fel rhan o'i swyddogaeth tai strategol.

Mae eich barn yn bwysig iawn a bydd yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd cyfunol gorau o dai cymdeithasol sydd ar gael yn lleol, tra'n cynnig y dewis mwyaf eang o lety i'r rhai sy'n gwneud cais.

Mae gennych hyd at ddydd Llun, 16 Mai i ddweud eich dweud ar hyn a gallwch wneud hyn drwy lenwi arolwg ar-lein ar www.cwmtafhub.com neu drwy gasglu copi papur o'r Ganolfan Ddinesig neu drwy wneud cais i dderbyn un drwy e-bostio housing@merthyr.gov.uk neu ffonio (01685) 725452. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, rydym yn bwriadu cyhoeddi polisi drafft i'w ystyried yn haf 2016, gyda pholisi terfynol yn dod yn fyw yn hydref 2016.



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

MANYLION CYSWLLT

Am ragor o wybodaeth am wasanaethau cefnogi
pobl yn eich ardal cysylltwch ar:

Tîm Cefnogi Pobl MTCBC

Ffôn: 01685 724690

E-bost: supportingpeople@merthyr.gov.uk

Cyfeiriad:

Uned 5

Parc Busnes Triongl

Pentrebach

Merthyr Tudful

CF48 4TQ



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Tîm Cefnogi Pobl RCTCBC

Ffôn: 01443 425005

E-bost: supportingpeopleteam@rctcbc.gov.uk

Cyfeiriad:

Ty Elai,

Dinas Isaf East

Williamstown

Tonypandy, Rhondda Cynon Taf

CF40 1NY



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREETADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol Cefnogi Pobl Cwm Taf

Ffôn: 01685 726230

E-bost: susan.preece2@merthyr.gov.uk

Cyfeiriad:

Uned 5

Parc Busnes Triongl

Pentrebach

Merthyr Tudful

CF48 4TQ

